



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymateb i adroddiad thematig Estyn o
Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3
mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog**

OGL

ISBN digidol 978 1 78903 588 9
© Hawlfraint y Goron Mai 2018
WG30290

Teitl yr adroddiad:

Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Manylion yr adroddiad:

Gofynnwyd i Estyn adolygu safonau, y ddarpariaeth ac arweinyddiaeth yn y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, gan ystyried sawl ffactor gwahanol fel addysgu a phrofiadau dysgu, arweinyddiaeth a rheolaeth.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau:

Dyma brif ganfyddiadau'r adroddiad:

Safonau

Mae safonau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn yr ysgolion cynradd a llawer o ddisgyblion yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r adolygiad hwn yn dda.

Mae hyn hefyd yn wir, at ei gilydd, am yr ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a arolygwyd yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Maent yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu'n dda yn Gymraeg, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio'u medrau iaith yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.

Mae gan lawer o ddisgyblion y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Serch hynny, nid yw ychydig o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar hyd eithaf eu gallu.

Mae llawer o ddisgyblion yn yr ysgolion cynradd yn ysgrifennu'n ystyrlon mewn amrywiaeth eang o ffurfiau estynedig gan addasu arddull a chynnwys eu gwaith at wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd.

Addysgu a phrofiadau dysgu

Yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r adolygiad hwn mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn dda ac mae'n rhagorol mewn lleiafrif ohonynt.

Mae safon addysgu'r Gymraeg o leiaf yn dda yn y rhan fwyaf o ysgolion. Mae'r addysgu yn cynnwys nodweddion rhagorol mewn lleiafrif o wersi.

Mae'r ysgolion llwyddiannus yn cynllunio'n fanwl ac yn effeithiol ar gyfer datblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu eu disgyblion gan sicrhau rhyngberthynas briodol rhyngddynt. Rhoddir sylw dyledus i elfennau o lythrennedd a chywirdeb iaith. Cyfranna hyn yn dda at ddatblygu medrau y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae gan y canolfannau iaith yr ymwelwyd â nhw yng Ngwynedd drefniadau effeithiol iawn ar gyfer disgyblion sy'n ymuno ag ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog heb fawr ddim cymhwysedd blaenorol yn y Gymraeg. Nid oes trefniadau cystal yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y rhan fwyaf o benaethiaid ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed yr ymwelwyd â nhw weledigaeth glir ar gyfer y Gymraeg. Craidd y weledigaeth hon yw bod pob disgybl yn gwneud y cynnydd gorau posib wrth ddatblygu eu medrau yn y Gymraeg ac yn meithrin ymdeimlad cadarn o Gymreictod.

Mae safonau yn y Gymraeg a hybu Cymreictod eu disgyblion yn flaenoriaeth yng nghynlluniau gwella'r mwyaf o ysgolion.

Mae'r mwyaf o ysgolion yn elwa ar drefniadau dysgu proffesiynol buddiol er mwyn cryfhau ymhellach y ddarpariaeth Gymraeg.

Argymhelliad 1

Dylai ysgolion ganolbwyntio ar ddatblygu medrau llafar disgyblion fel sail i ddatblygu eu medrau eraill, yn enwedig ysgrifennu.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod Cwricwlwm Cymru sydd ar ddod yn cefnogi'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau llafar ochr yn ochr â darllen ac ysgrifennu Cymraeg a phob iaith arall.

Argymhelliad 2

Dylai ysgolion gyflwyno strategaethau i helpu disgyblion i ddileu'r

gwallau iaith cyffredin a wneir gan leiafrif o ddisgyblion ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod datganiadau drafft 'Beth sy'n Bwysig' ar gyfer leithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ym meysydd Dysgu a Phrofiad yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu cywir, ac o ddefnyddio ac addasu iaith mewn cyd-destunau gwahanol. Bydd datganiadau 'Beth sy'n Bwysig' ar gyfer pob maes Dysgu a Phrofiad yn sail i ymarfer ystafell ddosbarth ym mhob ysgol maes o law.

Argymhelliad 3:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y profiadau a ddarperir i ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 yn adeiladu'n systematig ar y ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 2

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi y bydd yr elfen drawsgwricwlaidd sy'n ymwneud â phrofiad a chyfoethogi yn ystyried y ffordd orau o bwysleisio cydlyniant o un cam cynnydd i'r llall. Mae'r elfen hon o'r cwricwlwm newydd yn golygu cynnig cyfleoedd anffurfiol sy'n gwella'r modd mae disgyblion yn ymgysylltu â'u haddysg. O ran y Gymraeg, disgwylir i ysgolion weithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg mewn cyd-destun anffurfiol, yn unol â'r Siarter Iaith.

Argymhelliad 4:

Dylai ysgolion ddarparu hyfforddiant er mwyn gloywi iaith athrawon a chynorthwyrwyr addysgu.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda'r Consortia Addysg Rhanbarthol i gynnal archwiliad sgiliau Gymraeg o'r athrawon. Hefyd, rydym yn parhau i gefnogi'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg sy'n darparu cyfleoedd dwys i athrawon a chynorthwyrwyr dysgu ddatblygu eu sgiliau Gymraeg. Hefyd, mae'r consortia rhanbarthol yn derbyn cyllid i ddatblygu rhaglen ddysgu broffesiynol er mwyn helpu ymarferwyr i feithrin eu sgiliau Gymraeg yn unol â'r safonau proffesiynol newydd.

Argymhelliad 5:

Dylai ysgolion gynllunio'n fwriadus i gynyddu awydd a hyder disgyblion ysgolion uwchradd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Gweler ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 3.

Argymhelliad 6:

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol sicrhau cefnogaeth a chynhaliaeth arbenigol i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu medrau iaith disgyblion.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Mae datblygu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu ar yr un pryd ac i'r un safon maes o law, eisoes yn un o ystyriaethau'r cwricwlwm newydd.

Yn y cwricwlwm newydd ar gyfer ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, bydd cynnydd y dysgwyr yn cael ei fesur yn erbyn continwmm dyffinedig ar gyfer ieithoedd a fydd hefyd yn cynnig cysondeb at ddibenion asesu.

Mae awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn bartneriaid allweddol ac yn helpu i ddatblygu a rhannu arferion da yn y meysydd hyn ym mhob ysgol. Cafodd y consortia rhanbarthol gyllid ychwanegol yn 2017-18 er mwyn datblygu dulliau sy'n helpu i wella sgiliau llafar.

Argymhelliad 7:

Dylai awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol sicrhau darpariaeth effeithiol i ddisgyblion sydd yn dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ystyried sut i gynyddu'r cyfleoedd trochi hwyr i ddysgwyr bontio o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod Camau Allweddol 2 a 3 yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Argymhelliad 8:

Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod disgyblion sydd wedi cael eu hasesu mewn Cymraeg ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn parhau i ddatblygu'u medrau yn y dull mwyaf effeithiol yng Nghyfnod Allweddol 3.

Ymateb Llywodraeth Cymru: **Derbyn**

Mae Ymateb Llywodraeth Cymru wedi'i nodi yn argymhelliad 6.

Manylion cyhoeddi:

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 9 Mai 2018 a gellir ei weld ar wefan Estyn:

www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig